YSGOL LLANYSTUMDWY

(Cynradd Gwirfoddol)

Adroddiad y Llywodraethwyr i Rieni am y Flwyddyn Academaidd 2014-15

Ni chynhaliwyd cyfarfod i rieni i gyflwyno'r adroddiad hon yn unol ag adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Caiff crynodeb o'r adroddiad hon ei roi ar safwe'r ysgol a bydd copi papur o'r crynodeb yn cael ei ddarparu i rieni pe dymunent.

1. Y Corff Llywodraethol

Aelodau	Cynrychiolydd	Hyd at :
Mr Aled Price (Cadeirydd) Muriau, Criccieth	A.A.Ll.	1/9/2016
Mrs Geraldine Hackman(Is-gadeirydd)	Rhieni	1/9/2016
Parch Dylan Williams	Eglwys	1/1/2018
Mrs Marian Roberts	Eglwys	1/9/2015
Mrs Gwenda Roberts	Cymunedol	1/9/2017
Miss Margiad Elias	Cymunedol	1/9/2015
Mr Alwyn Parry	Rhieni	1/9/2015
Mrs Ffion Pierce	Rhieni	1/9/2018
Mr Aled Evans	A.A.Ll.	1/9/2016
Mrs Meinir Williams	Staff Ategol	1/9/2017
Miss Kylie Williams	Staff Dysgu	o 1/4/2012
Mrs Cathryn Davey	Pennaeth	o 1/1/2011
Mrs Heulwen Williams Cefn Parciau, Criccieth	Clerc	1/9/2016

Mae'r dyddiad gyferbyn ag enwau'r aelodau yn dynodi pryd y daw eu cyfnod i ben, ac yn achos rhieni-llywodraethwyr bydd cyfle i bob rhiant enwebu rhywun. Os oes mwy o enwau nag sydd eu hangen cynhelir etholiad. Os oes achos lle does dim enwebiad yn dod i law yna mae hawl gan y Corff i gyf-ethol rhywun o'u dewis.

2. Datganiad Ariannol

CYLLIDEB - 2013/2014	Cyllideb Drafft 2013/2014	Addasiadau	Cyllideb Terfynol 2013/2014
GWEITHWYR			
Cyflogau - Athrawon	£84,808		**£84,808**
Arweinyddiaeth / Trothwy Medi 2013	£838		**£838**
Athrawon Llanw - Premiwm Cynllun Absenoldebau	£3,700		**£3,700**
- Llanw Arall	£13,100		**£13,100**
- Amser Di-gyswllt Ysgol	£0		**£0**
- Anghenion Arbennig	£0		**£0**
Staff Ategol - Staff Cinio	£2,491		**£2,491**
- Gweinyddesau / Cymorthyddion	£12,097		**£12,097**
- Clerigol	£1,355		**£1,355**
- Clerc Llywodraethwyr	£618		**£618**
- Gofalwr (Goramser)	£0		**£0**
Clustnodi 1% Ychwanegol Cyflogau	£665		**£665**
Costau Eraill - Cynllun Recriwtio/Asiantaeth	£40		**£40**
ADEILADAU			
Cynnal a Chadw	£1,000		**£1,000**
Cynnal a Chadw - Adran Eiddo	£1,761		**£1,761**
CLG Gwasanaeth Eiddo	£859		**£859**
Costau Ynni - Trydan	£2,466		**£2,466**
- Nwy	£1,661		**£1,661**
- Dwr	£1,249		**£1,249**
- Olew	£0		**£0**
Contract Glanhau	£5,230		**£5,230**
Contract Gofalu	£0		**£0**
Contract Cynnal Tir	£910		**£910**
Defnyddiau Glanhau	£60		**£60**
Offer Ymladd Tân	£200		**£200**
Trethi	£3,480		**£3,480**
CYFLENWADAU A GWASANAETHAU			
Lwfans y Pen	£8,000		**£8,000**
Dodrefn	£0		**£0**
Post	£65		**£65**
Ffôn/ Ffacs a Rhwydwaith	£300		**£300**
CLG Swyddfa Ardal	£1,939		**£1,939**
CLG Gwasanaeth Cyllidol	£392		**£392**

CLG Rheoli Banc	£130		**£130**
CLG Cyflogau a Personel	£647		**£647**
CLG Integreiddio	£13,186		**£13,186**
CLG Gwybyddiaeth a Dysgu	£5,985		**£5,985**
CLG Arlwyaeth	£7,727		**£7,727**
CLG Llyfrgelloedd	£49		**£49**
CLG Archifau	£222		**£222**
Pyllau Nofio a Chwaraeon	£650		**£650**
Gwasanaeth Cerdd	£464		**£464**
CLG - Cefnogaeth Technoleg	£708		**£708**
CLG - Cefnogi Cwricwlwm	£581		**£581**
Arian Wrth Gefn (arian heb ei ymrwymo)	£0		**£0**
CYFANSWM GWARIANT	**£179,633**	**£0**	**£179,633**
INCWM - Defnydd Cymunedol	£0		**£0**
CYFANSWM CYLLIDEB NET	**£179,633**	**£0**	**£179,633**
DYRANIAD	**£163,346**		**£163,346**
GWAHANIAETH TYMOR HIR	**-£16,287**	**£0**	**-£16,287**
ADDASIADAU TYMOR BYR			
Defnydd o balansau	£0	£7,188	**£7,188**
Grant Cyfnod Sylfaen	£9,099		**£9,099**
GWAHANIAETH 2013/2014	**-£7,188**	**£7,188**	**£0**

3. Canlyniadau Asesu

Canlyniadau CS
Ni roddir manylion o ganlyniadau CS yr ysgol oherwydd rhesymau cyfrinachedd gan mai dim ond 5 plentyn oedd yn y dosbarth.

Canlyniadau CA2
Ni roddir manylion o ganlyniadau CA2 yr ysgol oherwydd rhesymau cyfrinachedd gan mai dim ond 8 plentyn oedd yn y dosbarth.

4. Presenoldeb

Presenoldeb disgyblion yr ysgol dros y flwyddyn 2013-14 oedd 93.7%. Mae hyn yn is na'n targed o 95% ac rydym yn gweithredu Polisi Sirol newydd ar bresenoldeb ers Medi 2014 ymlaen ac yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Lles er mwyn parhau i weithio tuag at gyrraedd ein targed.

5. Cyswllt â'r gymuned

Cynhelir Clwb Coginio ar nos Fawrth ar ôl ysgol pob pythefnos, bob yn ail gyda Chlwb Llan, sy'n cael ei drefnu a'i redeg gan wirfoddolwyr o'r eglwys leol. Cynhelir Urdd neu Glwb Ffitrwydd pob nos Iau o 3.30-4.30pm.

Mae cysylltiadau agos yn parhau i fodoli rhwng yr ysgol a mudiadau megis yr eglwys, Amgueddfa Lloyd George, yr Heddlu a Chanolfan Ty Newydd. Mae gennym bartneriaeth gweihiol da iawn gydag ysgolion eraill y ddalgylch ac ysgolion eraill yn y sir.

6. Cynllun Datblygu Ysgol

Blaenoriaethau'r CDY ar gyfer 2014-15

- Datblygu'r Fframwaith Llythrennedd / Rhifedd ymhellach
- Asesu
- Gwella Ansawdd - Miniogi rôl cydlynwyr a llywodraethwyr fydd yn arwain at godi safonau
- ADY / MAT

Fe gyflawnwyd holl flaenoriaethau y CDY, ond byddwn yn parhau i weithio ar agweddau ddatblygu'r Maes Dysgu Rhifedd yn drawsgwricwlaidd yn ystod 2015-16 gan fod angen datblygiad pellach yn y maes yma.

7. Chwaraeon

Cafwyd rhaglen drylwyr o addysg gorfforol i'r holl blant gydag ystod eang o gemau, cystadlaethau a gweithgareddau yn ystod y flwyddyn yn yr ysgol ac wedi eu trefnu gan yr Urdd a neu'r dalgylch. Cafwyd diwrnod Mabolgampau llwyddiannus iawn yn yr ysgol.

Mae Clwb Ffitrwydd yn cael ei gynnal pob pythefnos ar nos Iau o 3.30-4.30pm

8. Polisiau a fabwysiadwyd

Ceir rhestr cyflawn o bolisiau a fabwysiadwyd gan y llywodraethwyr yn yr ysgol drwy law'r Pennaeth.

9. Y Flwyddyn Addysgol 2014-15

TYMOR:
Hydref 2014 1 Medi 2014 - 19 Rhagfyr 2014
Gwanwyn 2015 5 Ionawr 2015 - 27 Mawrth 2015
Hâf 2015 13 Ebrill 2015 - 20 Gorffennaf 2015

GWYLIAU:
27 – 31 Hydref 2014 (Hanner-Tymor)
22 Rhagfyr 2014 - 2 Ionawr 2015 (Gwyliau'r Nadolig)
16 - 20 Chwefror 2015 (Hanner-Tymor)
30 Mawrth 2015 – 10 Ebrill 2015 (Gwyliau'r Pasg)
4 Mai 2015 (Calan Mai)
25 – 29 Mai 2015 (Hanner-Tymor)
21 Orffennaf - 31 Awst 2015 (Gwyliau'r Hâf)

10. Llawlyfr yr ysgol

Caiff Llawlyfr yr ysgol ei uwchlwytho i wefan yr ysgol sef www.ysgolllanystumdwy.co.uk

11. Cwricwlwm a threfniadaeth addysg

Mae pob disgybl sy'n mynychu'r ysgol yn dilyn Rhaglenni Astudio'r Cyfnod Sylfaen neu'r Cwricwlwm Cenedlaethol (2008) yn ôl eu hoedran. Mae'r diwrnod ysgol yn cael ei drefnu fel a ganlyn :

09:00 - 10:30	Gwasanaeth ac Addysgu/Dysgu
10:30 - 10:45	Amser Chwarae - Llefrith
10:45 - 12:00	Addysgu/Dysgu
12:00 - 01:00	Cinio
Prynhawn	**1 - 3 o'r gloch (CS) 1 - 3.30 o'r gloch (CA2)**
01:00 - 02:15	Addysgu/Dysgu
02:15-02:30	Amser Chwarae Cyfnod Sylfaen - Ffrwyth
02:15 - 02:30	Amser Chwarae CA2- Ffrwyth
02:30 - 03:00	CS Addysgu/Dysgu
02:30 - 03:30	CA2 Addysgu/Dysgu

12. Defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg

Mae sicrhau bod y plant yn datblygu'n ddinasyddion dwyieithog yn un o nodau'r ysgol. Parchwn famiaith pob disgybl a cheisiwn eu hannog i ddatblygu eu hyfedredd yn eu ail iaith, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg. Rhoddir sylfaen gadarn yn y Gymraeg i blant y Babanod ac yna adeiladu ar hyn i ymestyn gafael y plant yn eu iaith gyntaf ac ail-iaith er mwyn sicrhau eu bod yn gallu siarad, ysgrifennu a darllen y ddwy iaith yn rhwydd.

Y Gymraeg yw iaith gyfathrebol yr ysgol ac fe'i defnyddir yng ngweinyddiad dyddiol y sefydliad. Cyflwynir y Saesneg yn raddol yng y Cyfnod Sylfaen ac yna cynyddir ei defnydd yn gyson trwy Gyfnod Allweddol 2 er mwyn anelu at ddwyieithrwydd hyderus erbyn blwyddyn chwech.

13. Cyfleusterau Toiled

Mae digon o gyfleusterau toiled yn yr ysgol ar gyfer y plant, ac mae'r rhain yn cael eu glanhau yn ddyddiol gan ein glanhawraig.

14. Bwyta ac Yfed yn iach

Rydym yn dilyn canllawiau 'Blas am Oes' Llywodraeth Cymru. Mae'r cinio a ddarperir yn yr ysgol yn dilyn bwydlen Cyngor Gwynedd ac mae siop ffrwythau yn cael ei redeg yn yr ysgol. Mae'r plant yn cael llefrith pe dymunent yn

ystod yr egwyl boreol, ac mae poteli dwr yn cael eu rhoi i'r plant ar ddechrau pob blwyddyn sy'n hybu yfed digon o ddwr. Ni chaniateir yfed unrhywbeth ond dwr yn ystod amser ysgol.